

PRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT



Partneriaeth Dysgu Cynradd

Pecyn Cymorth Addysgu –
datblygu egwyddorion proffesiynol

Wythnos un: w/c Hydref 2 2017

Wythnos dau: w/c Hydref 9 2017

Wythnos tri w/c: Hydref 16 2017

Wythnos pedwar w/c: Hydref 23 2017

Nod:

Rôl yr ysgol:

Darparu cyfleoedd i fyfyrwyr arsylwi mewn grwpiau bychain ar yr egwyddor allweddol ar draws y cyfnodau.

Cynorthwyo tasgau lle mae'n bosibl ymarfer sgiliau allweddol a 'u hasesu gan gyfoedion.

Hwyluso arfer da ac adfyfyrio grŵp yn dilyn y tasgau.

Rôl y Brifysgol:

Rhoi mewnbwn damcaniaethol yn unol â'r pedair egwyddor.

Hwyluso adfyfyrio yn y brifysgol.

Cefnogi cynllunio ar gyfer y briffiau tasg.


Cynnal digwyddiad ar y cyd.

Methodoleg

Bob wythnos, byddwch yn ymweld ag ysgol ar y Dydd Mawrth a'r Dydd lau. Caiff y dyddiau Mawrth eu defnyddio'n benodol ar gyfer arsyllu ar arfer da, ac ar y dyddiau lau byddwch yn cynnal digwyddiad gan adfyfyrio ar ei effaith ar ddysgwyr.

Ystyriwch y lensys isod wrth adfyfyrio ar eich profiadau

(ar ôl Brookfield (1995) *Becoming a Critically Reflective Teacher*. San-Francisco: Jossey-Bass)



Wyrthnos un: rheoli'r ystafell ddosbarth

Dull Arsyllu:

Defnyddiwch y dull 'cofnod ysgrifenedig' ynghyd â nodiadau maes ac unrhyw dystiolaeth ffotograffig ychwanegol.

Pwyntiau i'w hystyried

- Beth ydych chi'n sylwi am yr adnoddau sydd ar gael a'r amgylchedd dysgu?
- Sut mae'r plant wedi cael eu grwpio?
- Pa reolweithiau sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth?
- Sut caiff trawsnewidiadau eu trefnu a'u rheoli?
- Pa ymyriadau sy'n cael eu cynnwys yn yr ystafell ddosbarth?
- Pa drefniadau sydd wedi eu rhoi mewn lle ar gyfer ymarferion tân, trefniadau meddygol, ffotograffau ac ati?
- A oes yna fynediad i'r tu allan?
- Beth yw amseriadau a rheolweithiau'r diwrnod?
- Sut caiff yr oedolion ychwanegol eu trefnu a sut caiff pethau eu trefnu ar eu cyfer?

Nod: Bod yn gallu arsyllu, cynllunio ac adfyfrio ar reoli ystafell ddosbarth

Dydd Mawrth:

Arsyllu ar sut mae athro yn rheoli ystafell ddosbarth:

Gan ddefnyddio'r 'pwyntiau i'w hystyried' adfyfyriwch ar strategaethau'r athro ar gyfer rheoli'r amgylchedd dysgu. Darperwch fanylion digonol er mwyn cefnogi eich adborth ar gyfer y cyfoedion sydd yn eich grŵp proffesiynol.

Dydd Iau:

Tro Dysgu – edrych ar yr amgylchedd o safbwynt y dysgwyr. *Efallai yr hoffech ofyn a allai dysgwyr fynd gyda chi ar y tro hwn.

Casglwch wybodaeth ar ffurf nodiadau gan ddefnyddio tystiolaeth ffotograffig neu frasluniau o agweddau diddorol o'ch 'taith' i'w cefnogi.

Adfyfyriwch ar eich 'casgliadau' a'u rhennwch gyda chyfoedion.

Wythnos dau: rheoli ymddygiad

Dull arsyllu:

Defnyddiwch y dull 'plentyn targed', ynghyd â nodiadau maes ac unrhyw dystiolaeth ffotograffig ychwanegol.

Pwyntiau i'w hystyried

- Beth yw'r polisi rheoli ymddygiad?
- A oes yna reolau am lefelau'r sŵn sydd yn y dosbarth?
- Sut y defnyddir clod?
- Pa systemau ymddygiad sydd wedi'u rhoi mewn lle yn yr ystafell ddosbarth?
- Pa wobrau a chosbau caiff eu defnyddio?
- Beth yw'r rheolau ynglŷn â diogelwch?
- A oes yna ymyriadau, megis grwpiau anogaeth ac ati, wedi'u rhoi mewn lle?
- Sut caiff digwyddiadau eu hatal rhag mynd dros ben llestri?
- Sut caiff CAUau neu systemau unigol eu defnyddio?
- A gaiff gwrthdynnu ei ddefnyddio ac a ydy e'n effeithiol?

Nod: Bod yn gallu arsyllu, cynllunio ac adfyfyrio ar strategaethau rheoli ymddygiad

Dydd Mawrth:

Gofynnwch am ganiatâd yr athro dosbarth i ddewis *disgybl targed i'w arsyllu am gyfnod penodedig (e.e. sesiwn).

Canolbwyntiwch ar effaith y strategaethau rheoli ymddygiad a ddefnyddir gan staff addysgu ar y disgybl unigol a'i brofiad dysgu.

*Mae'n bosibl y gallwch ganolbwyntio ar fwy nag un disgybl targed mewn diwrnod.

Sicrhewch fod eich nodiadau yn ddigon manwl i gefnogi deialog broffesiynol o fewn eich grŵp proffesiynol.

Dydd Iau:

Darllenwch neu adroddwch stori gyfoes i grŵp o ddysgwyr ac yna siaradwch amdani:

Gofynnwch i'r athro dosbarth i nodi grŵp priodol y gallwch weithio gydag ef. (* Mae'n bosib y gallwch ddarllen nifer o lyfrau mewn diwrnod).

Dewiswch destun priodol yn unol ag oed a gallu'r disgyblion.

Paratowch eich darllen (gan gynnwys celfi / cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio ac ati). Os ydy'n well gennych, gallwch ddweud stori.

Cynhaliwch ddeialog briodol gyda'r grŵp gan drafod y stori yr ydych wedi'i dweud/darllen. Adfyfyriwch ar y strategaethau rheoli ymddygiad y gwnaethoch eu defnyddio a'u heffaith ar ddysgu.

Mae'n ofynnol eich bod yn gwneud recordiad sain o'r dasg hon er mwyn cefnogi adfyfyrio.

Wythnos tri: holi cwestiynau

Dull arsyllu:

Defnyddiwch y dull 'samplu digwyddiad' ynghyd â nodiadau maes ac unrhyw dystiolaeth ffotograffig ychwanegol.

Pwyntiau i'w hystyried

- Beth yw'r bwriadau dysgu?
- A ydy'r ffyrdd y mae'r dysgwyr yn gallu ymateb i'r cwestiynau yn amrywio?
- A gaiff cwestiynau allweddol eu defnyddio?
- A gaiff pob dysgwr amser i feddwl?
- Sut caiff cwestiynau eu defnyddio i holi ac ymestyn meddwl?
- A oes yna dystiolaeth o brociau geiriol ac aneiriol?
- A ydy'r iaith a ddefnyddir yn glir i bob dysgwr?
- A gaiff ymatebion anghywir ei defnyddio er budd? Os cânt, sut?
- Sut caiff y cwestiynau eu dosbarthu?
- A ydy disgyblion yn gofyn eu cwestiynau eu hunain?

Nod: Bod yn gallu arsyllu, cynllunio ac adfyfyrio ar holi.

Dydd Mawrth:

Defnyddiwch y dull samplu digwyddiad er mwyn nodi sgiliau holi'r athro o fewn cyfnod penodedig (e.e. sesiwn)*.

Ystyriwch effaith y gwahanol fathau o gwestiwn a ddefnyddir.

*Mae'n bosib y gallwch ganolbwyntio ar fwy nag un athro a/ neu mwy nag un maes cwricwlwm mewn diwrnod. Sicrhewch fod eich nodiadau yn ddigon manwl i gefnogi deialog broffesiynol o fewn eich grŵp proffesiynol.

Dydd Iau:

Cynlluniwch ac addysgwch weithgaredd meddwl gweladwy a gaiff ei recordio ar fideo er mwyn galluogi adfyfyrio arno yn bellach.

Darperir arweiniad yn ystod sesiynau seminar penodol yn y brifysgol er mwyn eich cynorthwyo gyda'r dasg hon.

Gwnewch baratoi gweithgaredd ac yna ei addysgu i grŵp o ddysgwyr.

Gwnewch gofnodi'r holl weithgaredd er mwyn adfyfyrio ar ei effaith.

Yn ystod sesiwn yn y brifysgol, byddwch yn adfyfyrio ar yr episod addysgu gyda chyfoedion, gan ddefnyddio model adfyfyriol CAADOC.

Wythnos pedwar: symbylu a chymryd rhan

Dull arsyllu:

Defnyddiwch ddull 'graddfa ymwneud' ynghyd â nodiadau maes ac unrhyw dystiolaeth ffotograffig ychwanegol.

Pwyntiau i'w hystyried

- A ydy dysgwyr yn gweithio'n gynhyrchol? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
- A ydy disgyblion yn mwynhau dysgu?
- A ydy'r cynnwys yn gysylltiedig â phrofiadau a diddordebau'r disgyblion?
- A gaiff ystod eang o strategaethau addysgu eu defnyddio?
- Sut mae'r athro yn cynyddu'r disgwyliad?
- A allwch chi adnabod 'bachau' ar gyfer dysgu?
- Sut caiff adnoddau a TGCh eu defnyddio i ennyn diddordeb ac i symbylu?
- Sut y mae'r athro yn defnyddio llais, ystumiau a symud er mwyn cynnal a chadw diddordeb?
- Sut y mae'r athro yn dangos pendantrwydd, anogaeth a brwdfrydedd?
- A ydy pob dysgwr yn cael ei symbylu yn yr un modd?

NOD: Bod yn gallu arsyllu, cynllunio ac adfyfyrio ar symbylu a chymryd rhan

Dydd Mawrth (tasg arsyliwi):

Canolbwyntiwch ar un grŵp o ddysgwyr* am gyfnod penodedig (e.e. un sesiwn). Defnyddiwch 'raddfa ymwneud' i nodi cyfranogiad cymharol unigolion.

Ystyriwch y cyswllt sydd rhwng cymryd rhan a symbyliad: pa ddulliau/ adnoddau cafodd eu defnyddio er mwyn magsimeiddio cymryd rhan y dysgwyr?

* Mae'n bosib y gallwch ganolbwyntio ar fwy nag un athro a/ neu mwy nag un maes cwricwlwm mewn diwrnod. Sicrhewch fod eich nodiadau yn ddigon manwl i gefnogi deialog broffesiynol o fewn eich grŵp proffesiynol.

Dydd Mawrth (tasg addysgu):

Cynllunio ac ymgymryd â thasg fathemateg grŵp ffocws gyda grŵp o ddysgwyr. Dylai'r dasg â ffocws fod, er enghraifft: yn gêm, yn dasg atgyfnerthu sgiliau neu'n weithgaredd rhesymu. Lle bo'n bosib, ceisiwch ystyried holl (neu o leiaf rhai o) elfennau 'Model Cysylltiadau' Haylock a Cockburn (2017) ar gyfer dysgu rhif. Golyga hyn y dylech geisio, lle bo'n bosib, ystyried gwneud cysylltiadau rhwng profiadau diriaethol, lluniau (cynrychioliadau gweledol), iaith a symbolau.

I grynhoi

	Ffocws	Arsyllu → Adfyfyrio		Y dull penodol a ddefnyddir
Wythnos 1	rheoli ystafell ddosbarth	3/10/17	5/10/17	cofnod ysgrifenedig
Wythnos 2	rheoli ymddygiad	10/10/17	12/10/17	plentyn targed
Wythnos 3	holi	17/10/17	19/10/17	samplu digwyddiadau
Wythnos 4	symbylu a chymryd rhan	24/10/17		graddfa ymwneud
				* caiff nodiadau maes a thystiolaeth ffotograffig eu defnyddio bob wythnos

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
h.e.lewis@uwtsd.ac.uk
c.bleasdale@uwtsd.ac.uk